| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 1/10/2024 | Dim | **Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards (*Teams),* Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones (*Teams),* Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, (*Teams),* Heledd Jones, Rhodri Jones, Euros Roberts<br><br>Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br>**Cyhoedd:** neb yn bresennol. | Cynhaliwyd cyfarfod gyda Trafnidiaeth i Gymru i drafod gwella'r gwasanaeth bysiau.<br>Is-bwyllgor y Nadolig: 16/12/24 (pentref) a 17/12/24 (y wlad) ar gyfer Sion Corn. Cytunwyd i brynu'r anrhegion ac yn y blaen fel arfer.<br><br>Cymeradwyd taliadau'r mis:<br>Cyflog Clerc<br>Cyflog SAC a'r Fynwent (6 mis)<br>Glanhau toiledau<br>CThEF 294.00<br>CCF -nwyddau glanhau 66.80<br>Cludo rhai'r Gaiman (NHJ) 74.10<br>Torri gwair y fynwent 490.00<br>Trin y llwybrau 450.00<br><br>Cymeradwywyd Cais NP5/71/477E Gwersyll yr Urdd Glan Llyn: Gosod unedau pwmp gwres ffynhonnell aer awyr agored newydd ac awyrellau echdynnu/mewnbynnu aer yn gysylltiedig â gosodiadau adfer gwres awyru mecanyddol ac adeiladu grisiau allanol a rhodfa uchel i ffurfio mynediad llawr cyntaf newydd i'r adeilad.<br><br>Trafodwyd cais i osod mainc er cof a chytunwyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn cael amser i ystyried safleoedd derbyniol.<br><br>**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf**: 5/11/24 yn y Neuadd Bentref |